

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Cymuned

### a gynhaliwyd yn y Neuadd Bentref ar nos Fawrth, 3<sup>ydd</sup> o Ionawr

**Preseanol:** Huw Roberts (yn cadeirio), Iorwerth Evans, Karl Jones, Beryl Hughes Griffiths, Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Bryn Edwards, Caradog Evans, Lis Puw (Clerc)

**1031** Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb ac estynnodd longyfarchiadau'r Cyngor i'r Cadeirydd ar enedigaeth Malen Llwyd

**1032** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Catrin Roberts, Rhodri Jones, Hywel Evans, Alan Evans, Cynghorydd Sir Gwynedd, a Bethan Edwards (Swyddog Ariannol),

**1033** Nid oedd angen i neb ddatgan buddiant.

**1034** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Rhagfyr 6ed.

#### **1035 Materion yn codi o gyfarfod mis Rhagfyr:**

1006.2 Cyflenwad pridd i'r fynwent – bydd y pridd yn cyrraedd pan fydd amgylchiadau tywydd yn ffafriol

1006.3 Arwydd Dim gweryslla dros nos – adroddodd Arwel Lloyd Jones bydd yr arwydd yn barod erbyn diwedd yr wythnos. **Gweithredu: Karl Jones i nôl yr arwydd**

1017.7 Cofrestru Tir Nyrs y Fynwent: adroddodd Beryl Hughes Griffiths ei bod angen ymchwilio ymhellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Wrth ymholi roedd wedi dod ar draws cofnodion am fynwent Eglwys y Plwyf. Bydd yn gwneud ymchwil bellach i'r mater hwn hefyd.

1031.1 Ffenest arosfan bws Tŷ'n Ddôl - mae'r gwaith o drwsio'r ffenest mewn llaw gan Karl Jones ac Iorwerth Evans

1031.3 Coed wrth faes parcio'r Felin - nid oes ymateb wedi dod hyd yn hyn oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri am eu tocio.

1031.4 Llwybr (17) Cae Ffynnon - derbyniwyd ymateb manwl y bydd 3 giât a phont yn cael eu gosod yn fuan yn y flwyddyn newydd. Dywed y Peiriannydd Ardal fod Pwmp y Llan yn breifat ac wedi ei leoli ar dir tu allan i ffin y ffordd gyhoeddus. **Gweithredu: Clerc i gysylltu gyda Mr Gwilym Jones yn y Parc Cenedlaethol**

1031.5 Hysbysfwrdd y Llan – Cadeirydd i holi yn Ysgol y Berwyn os ydyw'r cynnig yn parhau. Os na, gofyn i Lolo Puw am bris.

1031.6 Diogelwch wrth yr Ysgol -derbyniwyd galwad ffôn a llythyr gan Bennaeth Addysg Cyngor Gwynedd yn mynegi cytundeb gyda phryder y Cyngor Cymuned ynglŷn â diogelwch. Dywedodd y bydd y mater yn cael ystyriaeth gan y pwyllgor perthnasol yn Ionawr.

1032.2 Y system carthffosiaeth - derbyniwyd sylw bod yr holl drafnidiaeth ddyddiol oherwydd diffygion yn y tanciau wrth Ddol Bach yn achosi dirywiad i'r ffordd rhwng Glynllifon a'r safle ar gaeau Dol Bach - mae nifer o dyllau wedi ymddangos yn ddiweddar ac mae'r ffordd yn gollwng o flaen Glynllifon. **Gweithredu: Clerc i fynegi pryder y Cyngor wrth y Bwrdd Dŵr a gofyn iddynt ystyried adfer y ffordd wrth iddynt gynllunio'r gwaith o drwsio'r tanciau carthffosiaeth.**

**1036 Is Bwyllgor toiledau cyhoeddus:** Derbyniwyd adroddiad gan yr is-bwyllgor a gyfarfu ar 28/12/11. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i eithrio'r Cyngor Cymuned rhag talu'r dreth ar y cyfleusterau cyhoeddus.

Cafwyd trafodaeth gyda theulu'r Eagles sydd yn barod i barhau eleni eto i fod yn gyfrifol am lanhau'r toiledau cyhoeddus. Mae'r Cyngor a'r gymuned gyfan yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gydweithio. Diolch hefyd i Mr Aled Richards am wneud y gwaith mor drwyadl a chydwybodol. **Gweithredu: Clerc i anfon llythyr o ddiolch i deulu'r Eagles.**

Mae cynlluniau i uwchraddio'r toiledau. **Gweithredu: Mr Karl Jones i holi hynt y cynlluniau sy'n cael eu paratoi gan Gyngor Gwynedd ar ran y Cynulliad a ThrawsCambria.**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

---

Rhoddyd ystyriaeth i osod bocsgonestrwydd wrth y toiled, a hefyd wrth faes parcio'r Felin os bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned. Gellid cydnabod cefnogaeth yr Eagles yn gyhoeddus ar y bocsgasglu. **Gweithredu: Clerc i holi prisiau**

Diolchodd y Cadeirydd i'r is-bwyllgor am y gwaith.

## 1037 Gohebiaeth:

**Cyngor Gwynedd:** Nodwyd derbyn llythyr yn gofyn barn am Gynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd. Nid yw'n fater sy'n berthnasol i ardal o fewn y Parc Cenedlaethol.

**Carreg fedd ansefydlog:** Derbyniwyd llythyr yn holi am y drefn o osod cerrig beddi ansefydlog ar lawr. **Gweithredu: Clerc i ateb**

## 1038 Materion ariannol:

1. Cytunwyd i'r Clerc lofnodi'r ffurflen gosod y Praesept
2. Derbyniwyd ad-daliad £25 oddi wrth Un Llais Cymru am hyfforddiant
3. Cytunwyd i dalu £144 i Hacker Young
4. Cynghorwyd y Swyddog Ariannol gan swyddog PAYE mai o fewn 4 wythnos o flaen talu y mae angen cofrestru.

**1039 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cynrychiolwyr. Cyfarfu is-grŵp yn Rhagfyr gyda chynrychiolwyr o Fenter a Busnes a fydd yn tywys y Bartneriaeth wrth wario'r grant cymunedol. Bydd mesur y galw yn lleol am wasanaeth megis Galwa Mewn, a mesur paroddrwydd gwasanaethau ac asiantaethau i ateb y galw.

**1040 Awel y Coleg** -gohiriwyd y drafodaeth gan fod y Cynghorwyr Sir lleol yn gweithredu ymhellach ar hyn o bryd.

## 1041 UFA

1. Noson Goffi. Cynigwyd nos Fercher 7fed o Fawrth, gyda'r elw yn mynd at Tenovus a Chlefyd yr Arennau. Cytunwyd i ofyn i Mr David Meredith ein diddanu gyda'i atgofion. Cytunwyd hefyd i gydnabod pen-blwydd Gwen Jones Maes y Pandy yn 100 oed yn y Noson Goffi. **Gweithredu: Arwel Lloyd Jones i drafod gyda David Meredith a Gwen Jones. Clerc i ohebu gyda Merched y Wawr a Sefydliad y Merched ar ôl cael cadarnhad o'r dyddiad gan Arwel Lloyd Jones.**
2. Adroddwyd nad yw'r gwaith o drwsio'r wal o dan Blas Deon a addawyd gan y Bwrdd Dŵr wedi ei wneud. **Gweithredu: Clerc i gysylltu gyda pherchennog y tir ac wedyn gyda'r Bwrdd Dŵr.**

Gorffen: 9.30